



**Strategaeth
Ymchwil a
Gwerthuso**

2019 i 2025

**Cynhyrchu'r
dystiolaeth
angenrheidiol i
wneud gwahaniaeth
i iechyd y
boblogaeth**



**GIG
CYMRU
NHS
WALES**

**Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales**

Manylion Cyswllt

Adran Ymchwil a Gwerthuso
Y Gyfarwyddiaeth Gwybodaeth
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Rhif 2 Capital Quarter
Caerdydd
CF10 4BZ

Ffôn: 029 2022 7744

E-bost: PHW.Research@wales.nhs.uk

 [@PublicHealthW](https://twitter.com/PublicHealthW)

 [@PHRWales](https://twitter.com/PHRWales)

www.publichealthresearchwales.co.uk

Ymholiadau'r Cyfryngau

Dylai newyddiaduron sydd am gysylltu ag Iechyd Cyhoeddus Cymru ffonio 029 2034 8755 (24 awr). Mae swyddog cyfathrebu ar gael ar bob adeg.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru'n croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

ISBN 978-1-78986-079-5

Ar gael yn www.phw.nhs.wales

© 2019 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru

Gall deunydd sydd wedi'i gynnwys yn y ddogfen hon gael ei ailgynhyrchu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored (OGL) ar yr amod y caiff ei wneud yn gywir ac nad yw'n cael ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol

Mae hawlfraint yn y trefniad teipograffeg, dyluniad a chynllun yn eiddo i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Cynnwys

Ynghylch Iechyd Cyhoeddus Cymru	2
1 Ymchwil a gwerthuso o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru	5
1.1 Edrych yn ôl: Ein llwyddiannau hyd yma (2015 i 2018)	7
2 Strategaeth Ymchwil a Gwerthuso ar gyfer y dyfodol (2019 i 2025)	10
2.1 Ein rôl	11
2.2 Ein nod	11
2.3 Ein hasedau	11
3 Amcanion Strategol	12
3.1 Pennu'r agenda ar gyfer ymchwil a gwerthuso iechyd y boblogaeth	13
3.2 Adeiladu diwylliant ymchwil a gwerthuso trwy fuddsoddi yn ein staff	14
3.3 Cynhyrchu tystiolaeth i gyfeirio gweithredu trwy arwain a hwyluso ymchwil a gwerthuso arloesol	15
3.4 Gweithio ar y cyd i gael effaith gadarnhaol ar iechyd y boblogaeth	17
3.5 Bod yn weladwy: peri newid trwy gyfathrebu	19
3.6 Adeiladu isadeiledd galluogi i gefnogi gweithredu llwyddiannus	20
4 Gweithredu a llywodraethu	21
4.1 Gweithredu	21
4.1.1 Cynllun gweithredu bras	24
4.2 Adolygiad llywodraethu a risg ymchwil	24
4.2.1 Egwyddorion ymchwil a gwerthuso	25
5 Llwyddiant	26
5.1 Mesur llwyddiant trosgynnol	27
6 Cydnabyddiaeth	28
7 Cyfeiriadau	29

Ynghylch Iechyd Cyhoeddus Cymru

Mae gan Iechyd Cyhoeddus Cymru bedair swyddogaeth statudol:

- 1** Darparu a rheoli ystod o wasanaethau iechyd cyhoeddus, diogelu iechyd, gwella gofal iechyd, rhoi cyngor ar iechyd, amddiffyn plant a gwasanaethau labordy microbiolegol a gwasanaethau mewn perthynas â goruchwyllo, atal a rheoli clefydau trosglwyddadwy;
- 2** Datblygu a chynnal trefniadau ar gyfer darparu gwybodaeth am faterion sy'n gysylltiedig â diogelu a gwella iechyd yng Nghymru i'r cyhoedd; cyflawni a chomisiynu ymchwil i'r cyfryw faterion a chyfrannu at ddarparu a datblygu hyfforddiant ar y cyfryw faterion;
- 3** Ymgymryd â chywain, dadansoddi a dosbarthu gwybodaeth mewn ffordd systematig am iechyd pobl Cymru gan gynnwys yn benodol achosion a marwolaethau o ganser a goroesi canser; a chyffredinolrwydd anomaledau cynhenid; a
- 4** Darparu, rheoli, monitro, gwerthuso a chynnal ymchwil i sgrinio cyflyrau iechyd a sgrinio materion gysylltiedig ag iechyd.



Ffigur 1 Blaenoriaethau Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer iechyd poblogaeth Cymru, 2018-2030¹





1 Ymchwil a gwerthuso o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru

“Gwybodaeth, ymchwil a thystiolaeth yw sylfeini, ac offerynnau hanfodol ar gyfer sicrhau, polisïau iechyd o safon”

(Sefydliad Iechyd y Byd, 2017)

“Symbylir yr ymchwil ac arloesedd gorau, ni waeth p’un a yw’n gyhoeddus neu’n breifat, gan bobl sydd â gorpwlion eang a rhagolwg byd-eang”

(Ffyniant i Bawb, 2018)

Nod Iechyd Cyhoeddus Cymru yw gwneud gwahaniaeth i iechyd a llesiant cenedlaethau’r presennol a’r dyfodol yng Nghymru trwy ymdrechion wedi’u ffocysu ar y cyd ar flaenoriaethau a nodwyd yn ein Strategaeth Tymor Hir (Ffigur 1).

Mae meithrin a defnyddio gwybodaeth a sgiliau i wella iechyd a llesiant ar draws Cymru’n flaenoriaeth strategol o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru ac yn sail i weithredu ar draws pob blaenoriaeth arall. Mae gweithgareddau ymchwil a gwerthuso sy’n canolbwyntio ar y materion hollbwysig ar gyfer iechyd y boblogaeth, wedi’i gefnogi gan weithio’n effeithiol ar y cyd

gyda phartneriaid cenedlaethol a rhyngwladol (gan gynnwys iechyd, gofal cymdeithasol, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, Byrddau Partneriaethau Rhanbarthol, addysg, tai, cyfiawnder troseddol, y byd academiaidd, diwydiant, sefydliadau trydydd sector a llawer mwy) a phobl yng Nghymru, yn galluogi ni i gyflawni effaith gadarnhaol ar y cyd ar iechyd.

Mae gweithgareddau ymchwil a gwerthuso’n hanfodol o ran dod o hyd i ddulliau arloesol o gyflawni newid effeithiol ac effeithlon yn yr hinsawdd gymhleth hon. Fel a nodwyd yn Cymru Iachach², mae dull seiliedig ar dystiolaeth (gan ddefnyddio ymchwil, gwerthuso, dysg a gwybodaeth i ddeall yr hyn sy’n gweithio; dysgu gan eraill a chydweithio â nhw) yn egwyddor graidd ar gyfer symbylu newid a thrawsnewid ar draws system iechyd y boblogaeth.

Yn aml defnyddir y termau *ymchwil* a *gwerthuso'n* gyfnewidiol, er hynny yn y strategaeth hon maent wedi'u diffinio fel a ddisgrifir ym Mlwch 1. Mae rhaglenni ymchwil yn hanfodol wrth ymdrin â bylchau yn y sylfaen dystiolaeth er mwyn cyfeirio gweithredu i ddiogelu iechyd a lliniaru effaith heriau i iechyd, nawr ac yn y dyfodol. Mae gweithgareddau gwerthuso'n helpu ni i ddeall effaith ein gweithredoedd ni, a gweithredoedd pobl eraill, ar ganlyniadau iechyd y boblogaeth.

Blwch 1. Diffinio termau allweddol	
Ymchwil	Yr ymgais i ddod o hyd i wybodaeth newydd y gellir ei chyffredinoli (h.y. fel y bydd o werth i eraill mewn sefyllfa debyg trwy ymdrin â chwestiwn/damcaniaeth a ddiffinnir yn glir gan ddefnyddio dulliau systematig a chadarn sy'n addas i'r diben. Mae hyn yn cwmpasu diffiniad eang o ymchwil, gan gynnwys e.e. ymchwil ansoddol a meintiol, astudiaethau arsylwi, epidemiolegol ac arbrofol.
Gwerthuso	Defnyddio dulliau systematig i bennu sut y gweithredwyd polisi, rhaglen neu ymyrraeth arall, pa effeithiau a welwyd yn erbyn canlyniadau disgwyledig, ar gyfer pwy, sut a pham, gan ddarparu tystiolaeth a all gael ei defnyddio i'w wella. Mae hyn yn cynnwys defnyddio dulliau gwahanol, gweithio mewn lleoliadau gwahanol, gyda phoblogaethau a data amrywiol.

Mae'r strategaeth hon yn pwysleisio ein hymrwymiad i ymchwil a gwerthuso iechyd cyhoeddus er mwyn cynhyrchu'r dystiolaeth y mae ei hangen i wneud gwahaniaeth a chyflawni Cymru iachach, hapusach a thecach. Yma rydym yn pennu cyfeiriad y dyfodol ar gyfer ymchwil a gwerthuso o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan adeiladu ar gynnydd hyd yma o fewn Strategaeth Ymchwil³ 2015-2018, a chan wella ein dull fel sefydliad iechyd cyhoeddus cenedlaethol Cymru.



1.1 Edrych yn ôl: Ein llwyddiannau hyd yma (2015 i 2018)

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi gwneud cynnydd sylweddol yn dilyn Strategaeth Ymchwil 2015-18, fel a ddangosir yn ein hadroddiadau uchafbwyntiau ymchwil blynyddol, a chynnydd yn erbyn y mesurau llwyddiant a bennwyd yn y strategaeth honno;

• Agenda ymchwil a rennir ar draws y system iechyd cyhoeddus.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cynhyrchu tystiolaeth drawsnewidiol trwy ymchwil er mwyn deall iechyd a llesiant yn well yng Nghymru, a'u gwella, yn benodol o ran profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACE) ac wrth ddatblygu rhaglenni ymchwil a gwerthuso a rennir ar draws partneriaid e.e. tai, plismona. Arweiniodd hyn at sicrhau £6.87 miliwn gan y Swyddfa Gartref i gefnogi rhaglen ar y cyd rhwng Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Comisiynwyr Heddlu a Throsedd ar draws Cymru (2017-2020).

Gan gydnabod ein rôl genedlaethol a rhyngwladol, ein harbenigedd a chyflawniadau, dynododd Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) Ganolfan Gydweithio WHO ar 'Fuddsoddi dros Iechyd a Llesiant' o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru - gan ganolbwyntio ar ddatblygu dull buddsoddi ymyrryd yn gynnar gynaliadwy tymor hir sy'n ffocysu ar bobl ar draws pob sector a sefydliad.

• Llwybr clir a chydlynol i bartneriaid allanol ymwneud ag ymchwil gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Mae Swyddfa Ymchwil a Datblygu (YaD) Iechyd Cyhoeddus Cymru, a gefnogir gan gyllid Llywodraeth Cymru, yn darparu llwybr clir i bartneriaid allanol ymwneud ag ymchwil gyda ni. Ar draws Iechyd Cyhoeddus Cymru, rydym yn gweithio mewn partneriaeth â phartneriaid academiaidd a phartneriaid eraill i gryfhau ymchwil i Iechyd y boblogaeth. Dyma rai enghreifftiau:

- Cysylltiadau cryfion gyda'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion a'r Rhwydwaith Ymchwil Gwella Iechyd Cyhoeddus o fewn Canolfan Datblygu a Gwerthuso Ymyriadau Cymhleth er mwyn Gwella Iechyd y Cyhoedd (DECIPHer) Prifysgol Caerdydd a gyd-gynhyrchodd astudiaethau portffolio mawrⁱ;
- Canolbwyntiodd ein gwaith ar y cyd gyda'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Ymchwil ar Iechyd a Llesiant y Boblogaeth ar draws Prifysgolion Abertawe, Caerdydd a Bangor ar ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol aml-asiantaeth trwy gydol oes;
- Ein cysylltiadau gyda'r Banc Data Cyswllt Gwybodaeth Ddiennw Ddiogel (SAIL), Ymchwil Data Iechyd y Deyrnas Unedig, y Bartneriaeth Ymchwil Data Gweinyddol ac Uned Gwyliadwriaeth Anafiadau Cymru Gyfan, Prifysgol Abertawe;

ⁱ Astudiaethau portffolio gan gynnwys: Hap-brawf gyda rheolydd clwstwr aml-ganolfan i ymchwilio i effeithiolrwydd a chost-effeithiolrwydd ymyrraeth atal cyffuriau anffurfiol a arweinir gan gymheiriaid wedi'i leoli mewn ysgolion (Yr astudiaeth cyfeillion FRANK) (NIHR £1,506,925); Iechyd Meddwl mewn Ysgolion – hap-brawf gyda rheolydd gydag ymyrraeth i wella cefnogaeth a hyfforddiant iechyd meddwl ar gyfer staff ysgolion uwchradd (astudiaeth WISE) (NIHR £1,291,098);

- Ein buddsoddiad yn yr Uned Cydweithio ar Iechyd Cyhoeddusⁱⁱ, a sefydlwyd yn 2016 ar y cyd gyda Phrifysgol Bangor i gefnogi a hwyluso gweithio gyda, a mynediad i, asedau iechyd cyhoeddus academiaidd. Mae'r Uned Gydweithio wedi gweithio ar nifer o ffrydiau gwaith proffil uchel gan gynnwys gamblo ac ACE; a
- Datblygiadau mewn genomeg a microbiolog ar y cyd gyda Phrifysgol Caerdydd.
- **Cymuned ymchwil iechyd cyhoeddus weithgar o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru.**

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi hyrwyddo cymuned ymchwil weithgar trwy:

- Gyllido gweithgareddau ymchwil addawol ymysg staff trwy grantiau arian sefydlu mewnol (10 prosiect ar draws Iechyd Cyhoeddus Cymru ers iddo lansio yn 2015); a'n grantiau ymchwil ar y cyd, gan gyd-ddylunio a chyflwyno gwasanaethau ymchwil gyda phartneriaid allanol (er enghraifft, ymchwilio i ganfyddiadau plant am sigarêts electronig gyda Phrifysgol John Moores Lerpwl, a gyflwynwyd yn Fforwm Ymchwil Sigarêts Electronig y Deyrnas Unedig; ymchwilio i anghenion iechyd a llesiant ceiswyr lloches gyda Phrifysgol Abertawe, gan gyflwyno'r canfyddiadau yn y Senedd gyda chefnogaeth gan Gynghrair Ffoaduriaid Cymru);
- Cefnogi datblygu grwpiau ymchwil a gwerthuso o fewn Adrannau a Chyfarwyddiaethau ar draws Iechyd Cyhoeddus Cymru;
- Noddi Ysgoloriaethau Sgiliau Economi Gwybodaeth (KESS) yr Undeb Ewropeaidd (UE).
- Cefnogi datblygu sgiliau ymchwil ar y cyd gyda'r Adran Pobl a Datblygu Sefydliadol, a chyllid datblygu gyrfaedd ymchwil allanol (3 Dyfarniad Amser Ymchwil Glinigol llwyddiannus⁴ ers 2015).
- Codi ymwybyddiaeth o gyfleoedd cyllido a datblygu trwy fwletin YaD misol, rhaglen seminarau Dysgu@Lunch ar feysydd o ddiddordeb iechyd cyhoeddus, rhith gymuned ymchwil⁵ i hwyluso rhwydweithio, cynadleddau ymchwil blynyddol i hyrwyddo ymchwil ar y cyd gyda phob sector, ac adroddiadau blynyddol sy'n amlygu llwyddiannau.
- **Cynnydd o flwyddyn i flwyddyn yn nifer y cyhoeddiadau gan staff Iechyd Cyhoeddus Cymru mewn siwrnalau a adolygir gan gymheiriaid.**

Mae staff Iechyd Cyhoeddus Cymru'n parhau i ymwneud yn weithredol ag ysgrifennu cyhoeddiadau academiaidd, gan gyhoeddi 119 o erthyglau siwrnal a adolygir gan gymheiriaid wedi'u cyhoeddi yn 2018 o'i gymharu â 106 yn 2014 (cynnydd blynyddol cyfartalog o 9% dros y cyfnod 2014 i 2018)ⁱⁱⁱ.

ⁱⁱ Dyma adnodd penodedig a gynhelir gan Brifysgol Bangor, y mae ei nod yw ymateb i anghenion datblygol i dderbyn cefnogaeth academiaidd yn unol ag amcanion Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r Uned Cydweithio Iechyd Cyhoeddus yn cysylltu'n uniongyrchol â'n Canolfan Gydweithio Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi Iechyd a Llesiant.

ⁱⁱⁱ Ffigurau gan Wasanaethau Llyfrgell Iechyd Cyhoeddus Cymru o gyhoeddiadau sy'n gysylltiedig â staff Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'n bosib ei fod yn tanamcangyfrif cyfanswm y cyhoeddiadau a gynhyrchwyd.

- **Cynnydd 30% o leiaf mewn cyllid ymchwil allanol a dderbynnir dros y tair blynedd nesaf o'r lefelau gwaelodlin yn 2014.**

Mae'r incwm i gefnogi gweithgareddau ymchwil a gwerthuso a arweinir ac a werthusir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cynyddu o leiaf 30% ers 2014 i fwy na £980,000 yn 2017/18.

- **Trywydd clir a chydlynol ar gyfer defnyddio gwybodaeth a chyfathrebu i hwyluso a hyrwyddo polisi ac arfer wedi'u cyfeirio gan dystiolaeth.**

Rydym wedi hwyluso cynadleddau, seminarau a gweithdai yng Nghymru hefyd sy'n hyrwyddo arfer seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer ymarferwyr ac ymchwilwyr, gan gynnwys Ymchwil yng Nghymru, ein cynhadledd ymchwil draws-sefydliadol flynyddol. Mae'r Strategaeth Defnyddio Gwybodaeth sefydliadol wedi cefnogi cynnydd yn y maes hwn hefyd. Mae adroddiadau Uchafbwyntiau Ymchwil Iechyd Cyhoeddus Cymru'n dangos sut mae ein hymchwil wedi dylanwadu ar bolisi ac arfer dros y blyneddodedd⁶, er enghraifft arolygon lefelau poblogaeth (e.e. ACE, Cadw'n Iach yng Nghymru) gan gyfeirio ein blaenoriaethau sefydliadol a'r agenda polisi ehangach yng Nghymru; ymchwil sy'n cyfeirio gweithredu ac atal cynnar trwy ddatblygu dulliau plismona wedi'u cyfeirio gan drawma; ymchwil

sy'n cyfeirio fframweithiau ymateb i feysydd heriol iechyd y boblogaeth gan gynnwys achosion o ddiweithdra torfol ac atal radicaleiddio yn y Deyrnas Unedig.

Er bod gennym lawer o feysydd rhagoriaeth o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru, rydym yn cydnabod yr angen am gryfhau ein hymchwil ymhellach yn unol ag argymhellion gan ddilyn adolygiad cymar 2017 y Gymdeithas Sefydliadau Iechyd Cyhoeddus Rhyngwladol (IANPHI)⁷ o Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Mae'r strategaeth hon yn disgrifio ein dull ymchwil a gwerthuso strategol fel sefydliad iechyd cyhoeddus cenedlaethol dros Gymru, gan gefnogi ein cynnydd yn erbyn meysydd â blaenoriaeth (Ffigur 1) a harneisio arbenigedd ar draws y sefydliad. Wrth i ni edrych tua 2030, byddwn yn parhau i gryfhau ymchwil a gwerthuso ar draws y sefydliad i gwrdd â'r heriau cymhleth sydd eisoes yn bodoli a materion sy'n datblygu o ran iechyd y boblogaeth dros y deng mlynedd nesaf.



2 Strategaeth Ymchwil a Gwerthuso ar gyfer y dyfodol (2019 i 2025)

Y dyhead a amlinellir o fewn strategaeth tymor hir Iechyd Cyhoeddus Cymru yw datblygu hinsawdd ymchwil ffyniannus gan gyflawni rhagoriaeth wrth gynhyrchu tystiolaeth trwy ymchwil a gwerthuso trawsfudol i ymdrin â heriau iechyd yng Nghymru erbyn 2030 (Blwch 2).

I gefnogi'r dyhead tymor hir hwnnw, mae'r strategaeth Ymchwil a Gwerthuso hon yn adeiladu ar lwyddiannau hyd yma (Adran 1) ac yn diffinio ein rôl drosgynnol, nodau i'w cyflawni, ac yn amlinellu chwe amcan strategol ar gyfer 2019 i 2025 a fydd yn cefnogi cynnydd tuag at ein dyheadau ar gyfer 2030.

Blwch 2. Mae blaenoriaeth strategol Iechyd Cyhoeddus Cymru'n gysylltiedig ag ymchwil a gwerthuso a dyheadau tymor hir¹

Meithrin a defnyddio gwybodaeth a sgiliau i wella iechyd a llesiant ar draws Cymru (Blaenoriaeth Strategol 7)

Erbyn 2030, bydd gennym:

- hinsawdd ymchwil a datblygu ffyniannus, sy'n galw ar ac yn cyfrannu at y dystiolaeth ryngwladol orau, gan ddenu buddsoddiadau amrywiol a defnyddio doniau ymchwil o bob cwr o'r byd.

2.1 Ein rôl fel sefydliad iechyd cyhoeddus genedlaethol Cymru yw bod yn arweinydd system ar gyfer ymchwil i iechyd y boblogaeth, gan adnabod y blaenoriaethau ar gyfer iechyd y boblogaeth, dylanwadu ar agenda ymchwil i iechyd y boblogaeth, arwain portffolio ymchwil a gwerthuso credadwy, er mwyn cynhyrchu a defnyddio tystiolaeth i wella iechyd y boblogaeth, a lleihau anghydraddoldebau iechyd yng Nghymru.

2.2 Ein nod yw cael effaith amlwg ar iechyd y boblogaeth yng Nghymru sy'n weladwy ar lefel genedlaethol a rhyngwladol, trwy arwain a hwyluso ymchwil a gwerthuso iechyd y boblogaeth.

2.3 Ein hasedau, sy'n cefnogi twf ymchwil a gwerthuso'n cynnwys y dyfnder gwybodaeth ac arbenigedd o fewn ein staff; ein rhaglenni iechyd y boblogaeth a setiau data; isadeiledd labordai; cysylltiadau agos ag ymarferwyr a'r rhai sy'n llunio polisi ar draws disgyblaethau iechyd a'r rhai nad ydynt yn ymwneud ag iechyd; partneriaethau cydweithio effeithiol gyda sefydliadau addysg uwch; a'n gallu i adnabod heriau ac ymateb yn effeithiol wrth gynhyrchu a defnyddio tystiolaeth i gael effaith gadarnhaol ar iechyd.



3 Amcanion Strategol

Bydd yr amcanion strategol a ganlyn yn cyflwyno'r dyheadau tymor hir a ddisgrifir ym Mlwch 2;

1. **Pennu'r agenda** ar gyfer ymchwil a gwerthuso iechyd y boblogaeth
2. **Adeiladu diwylliant ymchwil a gwerthuso** trwy fuddsoddi yn ein staff
3. **Cynhyrchu tystiolaeth i gyfeirio gweithredu** trwy arwain a hwyluso ymchwil a gwerthuso arloesol
4. **Gweithio ar y cyd** i gael effaith gadarnhaol ar iechyd y boblogaeth
5. **Bod yn weladwy:** peri newid trwy gyfathrebu
6. **Adeiladu isadeiledd galluogi** i gefnogi gweithredu llwyddiannus

Ceir cysylltiadau cryfion rhwng yr amcanion strategol a bydd gweithredu mewn un maes yn cefnogi cynnydd yn erbyn maes arall (Ffigur 2).

Ffigur 2 Iechyd Cyhoeddus Cymru, amcanion Ymchwil a Gwerthuso strategol, 2019 i 2025.



3.1 Pennu'r agenda ar gyfer ymchwil a gwerthuso iechyd y boblogaeth

Mae Strategaeth Tymor Hir Iechyd Cyhoeddus Cymru'n nodi y bydd y sefydliad yn datblygu agenda ymchwil a datblygu newydd sydd wedi'i halinio â'r saith maes gweithredu â blaenoriaeth ar gyfer gwella iechyd poblogaeth Cymru (Ffigur 1). Yn ein rôl fel sefydliad iechyd cyhoeddus cenedlaethol Cymru, byddwn yn pennu'r agenda ar gyfer ymchwil a gwerthuso iechyd y boblogaeth i'n cefnogi wrth gyflawni ein strategaeth tymor hir, gan alw ar arbenigedd o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru a gyda chyfranogiad gan eraill gan gynnwys y rhai sy'n llunio polisi, sefydliadau addysg uwch, a'r cyhoedd.

Bydd hyn yn cynnwys adnabod pan fydd angen tystiolaeth i gyfeirio polisi neu arfer, a dylanwadu ar yr isadeiledd ymchwil cenedlaethol a rhyngwladol i ganolbwyntio ar flaenoriaethau i wella iechyd y boblogaeth yng Nghymru.

Byddwn yn cyflawni hyn trwy

3.1.1 Ddatblygu a chymhwyso dull systematig o adnabod blaenoriaethau ymchwil a gwerthuso allweddol ar gyfer iechyd y boblogaeth sydd wedi'i alinio â blaenoriaethau iechyd y boblogaeth yng Nghymru, mewn cydweithrediad â'r rhai sy'n llunio polisi, y cyhoedd ac ymchwilwyr rhyng-ddisgyblaethol.

3.1.2 Dylanwadu ar gyfeiriad strategol ymchwil iechyd y boblogaeth gan gynnwys cyllidwyr ymchwil iechyd cenedlaethol (e.e. cyllidwyr academiaidd cenedlaethol a rhyngwladol fel y Sefydliad Ymchwil Iechyd Cenedlaethol, y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol, y Cyngor Ymchwil Feddygol, a sectorau gwirfoddol), sectorau llywodraethol (e.e. Llywodraeth Cymru ac eraill), ac agendau ymchwil y byd academiaidd a sefydliadau partner.

3.1.3 Adeiladu agenda ymchwil ar y cyd o fewn ac ar draws blaenoriaethau strategol ar y cyd gyda'r byd academiaidd, y sector cyhoeddus, llywodraeth leol a chenedlaethol, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, Byrddau Partneriaethau Rhanbarthol ac eraill.



3.2 Adeiladu diwylliant ymchwil a gwerthuso trwy fuddsoddi yn ein staff

Mae lechyd Cyhoeddus Cymru'n dyheu am gael hinsawdd ymchwil a gwerthuso ffyniannus sy'n denu buddsoddiadau amrywiol ac yn defnyddio doniau ymchwil o bob cwr o'r byd. Bydd hyn yn golygu parhau i adeiladu diwylliant sefydliadol sy'n gwerthfawrogi gweithgareddau ymchwil a gwerthuso, ac yn cefnogi staff i ddatblygu a chymhwyso sgiliau ymchwil a gwerthuso i gryfhau arfer seiliedig ar dystiolaeth, a chyfrannu at greu sefydliad sy'n dysgu.

Dros y tymor hwy hyd at 2030, byddwn yn creu modelau staffio arloesol gan gynnwys gweithio ar draws sefydliadau addysg uwch, i gefnogi ymchwil a gwerthuso ar draws disgyblaethau i'n helpu datblygu rhwydwaith cynaliadwy o arbenigedd ymchwil a gwerthuso iechyd y boblogaeth.

Byddwn yn cyflawni hyn trwy

3.2.1 Ddatblygu a gweithredu rhaglen datblygu ymchwil a gwerthuso gynaliadwy sy'n ymdrin â gwybodaeth a sgiliau technegol a'u cymhwyso mewn arfer - gan ymateb i fylchau mewn cymhwystra o fewn methodolegau newydd a datblygol ar draws dadansoddi data, genomeg a biowybodeg.

3.2.2 Cynyddu ymwybyddiaeth o ddiben a gwerth ymchwil a gwerthuso ymysg yr holl staff.

3.2.3 Annog a chefnogi staff i ddatblygu cynigion ymchwil a gwerthuso ac ariannu ceisiadau yn seiliedig ar eu profiad o arfer iechyd cyhoeddus ar y cyd gyda phartneriaid a

rhwydweithiau academiaidd (cyswllt ag Adran 3.4).

3.2.4 Hyrwyddo a datblygu arweinyddiaeth ymchwil a gwerthuso ymysg arbenigwyr iechyd cyhoeddus trwy raglenni ffurfiol ac anffurfiol, datblygu trywyddau gyrfa ymchwil clir yn fewnol a gyda sefydliadau addysg uwch, a mwyafu'r defnydd o raglenni mewanol ac allanol wedi'u cyllido i ddatblygu (e.e. Dyfarniadau Amser Ymchwil Glinigol a gyllidir gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, rhaglenni ymchwil ôl-raddedig).

3.2.5 Adnabod a hwyluso cyfleoedd yn rhagweithiol ar gyfer lleoliadau academiaidd, goruchwyliaeth ôl-raddedig, secondiadau staff, contractau anrhydeddus a swyddi ar y cyd sy'n ymestyn ar draws ffiniau sefydliadol; deall y trosglwyddiad gwerth a sgiliau i'r ddau gyfeiriad.

3.2.6 Gweithio gyda'r byd academiaidd a'r Gyfadran Iechyd Cyhoeddus i gryfhau rolau Iechyd Cyhoeddus Cymru wrth hyfforddi a datblygu Cofrestryddion Iechyd Cyhoeddus Academiaidd Arbenigol yng Nghymru; a chyfranogiad parhaus mewn ymchwil ymysg Ymgynghorwyr Iechyd Cyhoeddus o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru.

3.2.7 Cydnabod a dathlu llwyddiant ein hymchwylwyr.

3.2.8 Buddsoddi i gefnogi a chryfhau capasiti a galluoedd ymchwil a gwerthuso o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru (gweler Adrannau 3.6 a 4.1.1).

3.2.9 Cynyddu lefelau cyfranogiad gyda rhith gymuned ymchwil Iechyd Cyhoeddus Cymru i rannu enghreifftiau o arfer da a hyrwyddo rhwydweithio.

3.3 Cynhyrchu tystiolaeth i gyfeirio gweithredu trwy arwain a hwyluso ymchwil a gwerthuso arloesol

Bydd cryfhau gweithgareddau ymchwil a gwerthuso pwrpasol ar draws ein sefydliad yn cynhyrchu'r dystiolaeth y mae ei hangen i gyfeirio gweithredu ar lefel leol a chenedlaethol i wella iechyd y boblogaeth yng Nghymru. Gan alw ar ein hasedau (Adran 2.3), byddwn yn arwain ac yn hwyluso rhaglenni ymchwil a gwerthuso sydd wedi'u halinio i'n blaenoriaethau strategol, ac ar yr un pryd adnabod ac ymdrin yn rhagweithiol â heriau newydd a datblygol i iechyd y boblogaeth.

Byddwn yn cyflawni hyn trwy

3.3.1 Arwain rhaglenni ymchwil a gwerthuso ar y cyd sydd â ffocws strategol, gan gynnwys astudiaethau portffolio ymchwil o safon^{iv}.

3.3.2 Ar gyfer pob blaenoriaeth strategol (Ffigur 1), adnabod a gwerthuso'n systematig rhaglenni a mentrau iechyd cyhoeddus allweddol, deall yr effaith a'r gwerth o ran iechyd y boblogaeth, gan gyfeirio gweithredu yn y dyfodol.

3.3.3 Annog a hwyluso mynediad i, a defnydd o, setiau data poblogaeth a gesglir yn rheolaidd i gynhyrchu tystiolaeth i wella iechyd y boblogaeth.

3.3.4 Adeiladu rhaglen ymchwil a gwerthuso sy'n canolbwyntio ar ddilyniannu cenhedlaeth nesaf, biowybodeg, data mawr a deallusrwydd artiffisial.

3.3.5 Gweithredu rhwydwaith Arweinwyr Ymchwil a Gwerthuso (YaG) penodedig sydd wedi'u hymwreiddio o fewn pob blaenoriaeth strategol, gan weithio ar draws agendâu a gyda phartneriaid academiaidd allanol i yrru'r agenda ymchwil a gwerthuso ymlaen (Ffigur 3, a gweler Adran 4.1).

3.3.5.1 Dros y tymor byr

(1-2 flynedd): gweithio tuag at ddatblygu rhwydwaith o Arweinwyr YaG arbenigol i gefnogi adnabod blaenoriaethau ymchwil a gwerthuso, cynllunio rhaglenni ymchwil a gwerthuso, adnabod partneriaid academiaidd, a manteisio ar gyfleoedd i gyflawni ymchwil, gwerthuso a/neu ddatblygu amlddisgyblaethol.



3.3.5.2 Dros y tymor canolig

(3-5 mlynedd): Ymwreiddio arweinwyr YaG a chefnogi sefydlu is-dimau trwy gyllid mewnlol ac allanol, i ddatblygu ac arwain rhaglenni ymchwil a gwerthuso sydd wedi'u halinio'n agos ag arfer (cyswllt ag Adrannau 3.4 a 3.6).

3.3.6 Ariannu gweithgareddau ymchwil arloesol neu astudiaethau peilot trwy gystadlu am arian sefydlu a grantiau ymchwil ar y cyd.

^{iv} Mae Portffolio Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru'n gofrestr o astudiaethau iechyd a gofal cymdeithasol ansawdd uchel sy'n weithredol yng Nghymru. Yn flaenorol canolbwyntiodd y meini prawf cymhwyster ar gyfer cael ei gynnwys ar y Portffolio ar astudiaethau sy'n wynebu cyfranogwyr yn unig, er hynny mae wedi cael ei ddiwygio'n ddiweddar fel bod pob astudiaeth ansawdd uchel yn cael ei gofnodi (gan gynnwys cysylltiadau data, lleoliadau nad ydynt yn rhan o'r GIG) gan alluogi i fwy o ymchwil ansawdd uchel sydd ar waith o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru gael ei chydabod fel 'portffolio'.

Ffigur 3 Isadeiledd Ymchwil a Gwerthuso Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi'i alinio â blaenoriaethau strategol (YaG Ymchwil a Gwerthuso; BS Blaenoriaeth Strategol [gweler Ffigur 1])



Blwch 3. Trosolwg o dirwedd ymchwil iechyd y boblogaeth yng Nghymru (2019)

CANOLFANNAU YMCHWIL

- Canolfan Ymchwil Heneiddio ac Dementia
- Canolfan Iechyd Meddwl Genedlaethol
- Canolfan Ymchwil Iechyd a Llesiant y Boblogaeth Genedlaethol
- Canolfan PRIME Cymru
- Canolfan Ymchwil Canser Cymru
- DECIPHer

UNED TREIALON CLINIGOL YR YSGOL YMCHWIL GOFAL CYMDEITHASOL

GRWPIAU CEFNOGI ISADEILEDD

- Gwasanaeth Cefnogi Economeg Iechyd Cymru
- Parc Genynnau Cymru
- Banc Data Cyswllt Gwybodaeth Ddienw Ddiogel (SAIL)
- Ymchwil Data Iechyd y Deyrnas Unedig
- Partneriaeth Ymchwil Data Gweinyddol
- Doeth am Iechyd Cymru

CEFNOGI A CHYFLWYNO YMCHWIL

- Canolfan Cefnogi a Chyflwyno Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
- Swyddfeydd Ymchwil a Datblygu (YaD) y GIG

3.4 Gweithio ar y cyd i gael effaith gadarnhaol ar iechyd y boblogaeth

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru'n bartner dichonadwy mewn ymchwil a gwerthuso trawsfudol. Mae ein cryfderau'n cynnwys ein gallu i adnabod yr angen am ymchwil a gwerthuso, ein gwaith gyda phartneriaid amlddisgyblaethol i gynhyrchu tystiolaeth bwrpasol, a'r gallu i drosi'r wybodaeth newydd i gyfeirio penderfyniadau polisi ac arfer.

Mae iechyd a'i benderfynyddion yn ymestyn ar draws agendâu, sectorau a disgyblaethau. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru'n cydnabod bod gan gydweithio effeithiol ar draws isadeiledd ymchwil cynhwysfawr (Blwch 3), sectorau iechyd a'r rhai nad ydynt yn ymwneud ag iechyd, partneriaid masnachol a diwydiant yn y Deyrnas Unedig ac yn rhwngwladol⁸ y potensial i gyflwyno effaith fuddiol ehangach ar iechyd y boblogaeth. Mae cyd-destun pontio'r UE yn amlygu pwysigrwydd cynnal partneriaid ymchwil a gwerthuso rhwngwladol presennol a sefydlu rhai newydd.

Byddwn yn cyflawni hyn trwy

3.4.1 Hwyluso datblygu partneriaethau ymchwil a gwerthuso gydag agenda ymchwil a rennir ar draws y byd academiaidd, Llywodraeth Cymru, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, llywodraeth leol, sectorau nad ydynt yn ymwneud ag iechyd, ar lefel genedlaethol a rhwngwladol trwy drefniadau anffurfiol (e.e. gweithdai a digwyddiadau) ac wedi'u ffurfioli (e.e. cydleoli rolau, rhaglenni ar y cyd) (trwy Amcanion 3.2.5, 3.3.2 a 3.3.5).

3.4.2 Cyd-gynhyrchu rhaglenni ymchwil a gwerthuso i sicrhau bod y diben a chanlyniadau'n gysylltiedig yn gryf â pholisi ac/neu ag arfer ac wedi'u lledaenu trwy fudd-ddeiliaid allweddol.

3.4.3 Sicrhau model ennyn diddordeb y cyhoedd effeithiol a phwrpasol er mwyn cyfeirio a rhannu ein rhaglenni ymchwil a gwerthuso.

3.4.4 Cynyddu gweladwyedd y Swyddfa YaD fel pwynt cyswllt cychwynnol clir i hwyluso cyfleoedd cydweithio ymchwil, masnachol, diwydiant ac academiaidd gydag lechyd Cyhoeddus Cymru.



3.5 Bod yn weladwy: peri newid trwy gyfathrebu

Fel sefydliad iechyd cyhoeddus cenedlaethol, byddwn yn adnabod yr heriau allweddol i iechyd y boblogaeth yng Nghymru (Adran 3.1), yn arwain ac yn hwyluso cynhyrchu tystiolaeth i gyfeirio gweithredu (Adran 3.2 a 3.3), ac yn cyfathrebu'n gyffredinol â'n budd-ddeiliaid i sicrhau trosi'r dystiolaeth honno i bolisi ac arfer iechyd cyhoeddus (Adran 3.4).

Er bod gennym rai rhaglenni ymchwil hynod llwyddiannus ac amlwg sy'n adnabyddus i fudd-ddeiliaid mewnol ac allanol, rydym yn cydnabod yr angen am gynyddu gweladwyedd lechyd Cyhoeddus Cymru fel arweinydd systemau mewn ymchwil a gwerthuso iechyd y boblogaeth, a'i ddatblygu ymhellach fel sefydliad ymchwil cydlynol, gweithredol a dylanwadol.

Byddwn yn cyflawni hyn trwy

3.5.1 Ddatblygu brand ymchwil a gwerthuso adnabyddus ar gyfer lechyd Cyhoeddus Cymru sy'n gweithredu fel dynodwr ansawdd amlwg wrth gyflwyno ein gwaith.

3.5.2 Cyflwyno'r gynhadledd Ymchwil a Gwerthuso flynyddol ar iechyd y boblogaeth yng Nghymru.

3.5.3 Bod yn arloesol yn ein dull o ledaenu canfyddiadau ymchwil a gwerthuso i gynulleidfaoedd amrywiol gan gynnwys y cyhoedd, ymarferwyr a'r rhai sy'n llunio polisi, wedi'i gefnogi gan ddatblygu model newydd ar gyfer lleadaenu a defnyddio gwybodaeth ar draws y system iechyd cyhoeddus^v. Er enghraifft, dysgu o'n dull partneriaeth llwyddiannus presennol gyda'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion, sy'n darparu data ar lefel y system fel mater o drefn ar gyfer y rhaglenni Ysgolion iach trwy ystod o weithgareddau gan gynnwys digwyddiadau rhwydweithio ar y cyd, webinarau a chrynodebau llewg ar gyfer ysgol.

3.5.4 Annog a chefnogi staff ar draws y sefydliad i rannu eu gwaith trwy siwrralau a adolygir gan gymheiriaid, cyfryngau eraill a adolygir gan gymheiriaid, rhaglenni syntheseiddio gwybodaeth, llwybrau cyfeirio polisi a chynadleddau cenedlaethol a rhyngwladol.

3.5.6 Datblygu system i gofnodi allbynnau ymchwil a gwerthuso lechyd Cyhoeddus Cymru'n well, gan gynnwys archwilio trosi tystiolaeth i weithredu.

^v Cyswllt â Chynllun Tymor Hir Iechyd Cyhoeddus Cymru "Erbyn 2030, byddwn yn arweinydd cydnabyddedig wrth ddefnyddio gwybodaeth ar gyfer iechyd y boblogaeth trwy arweinyddiaeth ar draws y system"

3.6 Adeiladu isadeiledd galluogi i gefnogi gweithredu llwyddiannus

Er mwyn cyflwyno'r strategaeth sefydliadol hon yn llwyddiannus mae angen cefnogaeth ar draws y sefydliad o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru i ymwreiddio ymchwil a gwerthuso a fydd yn cynhyrchu'r dystiolaeth i ymdrin â heriau cymhleth o ran iechyd y boblogaeth yng Nghymru (Ffigur 1). Bydd adeiladu isadeiledd galluogi o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru'n gyrru gweithrediad y strategaeth hon ymlaen i gefnogi datblygiad cynaliadwy hinsawdd ymchwil a gwerthuso ffyniannus erbyn 2030.

Byddwn yn cyflawni hyn trwy

3.6.1 Sefydlu rhwydwaith o arweinwyr Ymchwil a Gwerthuso (YaG) penodedig wedi'u cysylltu â blaenoriaethau strategol, i ymwreiddio'r swyddogaethau hyn o fewn meysydd strategol â blaenoriaeth a chefnogi datblygiad cyflym ar draws y sefydliad (cyswllt ag Amcan 3.3.5).

3.6.2 Sefydlu rhwydwaith o is-dimau Ymchwil a Gwerthuso sydd wedi'u halinio â phob blaenoriaeth strategol ac ar y cyd gyda budd-ddeiliaid allweddol gan gynnwys partneriaid academiaidd ac anacademaidd er mwyn manteisio ar gyfleoedd (cyswllt ag Amcan 3.3.5).

3.6.3 Creu hinsawdd sy'n hwyluso i gefnogi ymchwil a gwerthuso trwy systemau a phrosesau effeithlon ac wedi'u rhesymoli, a chapasiti i gefnogi fel y bo angen, gan gynnwys;

3.6.3.1 swyddogaeth cefnogi ymchwil a gwerthuso ymatebol a hyblyg, gan gynnwys llywodraethu ymchwil.

3.6.3.2 swyddogaeth cefnogaeth fusnes benodedig ar gyfer rhaglenni ymchwil a gwerthuso a arweinir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan gynnwys cefnogaeth ariannol a chyfreithiol (e.e. sicrhau adennill costau llawn ar gyfer pob rhaglen a ariennir yn allanol; arweiniad clir ar eiddo deallusol).

3.6.3.3 swyddogaeth cefnogi cyswllt academiaidd ganolog ar gyfer cryfhau partneriaethau, contractau a rheoli busnes academiaidd.

3.6.3.4 sicrhau cyfranogiad, ennyn diddordeb a chynnwys y cyhoedd yn bwrpasol trwy gysylltiadau â grwpiau cyfranogiad cleifion/y cyhoedd yng Nghymru.

3.6.4 Cryfhau cysylltiadau â'r isadeiledd ymchwil yng Nghymru (Adran 3.4).



4 Gweithredu a llywodraethu

4.1 Gweithredu

Bydd ein gwerthoedd sefydliadol *“cydweithio, gydag ymddiriedaeth a pharch i wneud gwahaniaeth i iechyd y boblogaeth yng Nghymru”* yn siapio gweithrediad y strategaeth hon o ran ein gweithredoedd o fewn lechyd Cyhoeddus Cymru a gyda phartneriaid allanol. Mae sefydlu perchnogaeth ar y cyd ar y strategaeth Ymchwil a Gwerthuso hon ar draws lechyd Cyhoeddus Cymru’n hanfodol i gefnogi gweithredu llwyddiannus tuag at nod ein Strategaeth Tymor Hir 2030 o gael hinsawdd ymchwil a gwerthuso ffyniannus sy’n ymdrin â phrif heriau ieched Cymru.

Bydd pob un o Gyfarwyddiaethau Iechyd Cyhoeddus Cymru’n cefnogi adnabod anghenion ymchwil a gwerthuso, ac yn cymhwyso sgiliau ymchwil a gwerthuso trwy gynllunio a buddsoddi yn y gweithlu. **Bydd y Gyfarwyddiaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol yn** arwain ar adnabod bylchau mewn sgiliau er mwyn cyfeirio cynlluniau datblygu gweithlu i gefnogi rhaglenni dysgu a datblygu.

Bydd y Gyfarwyddiaeth

Gweithrediadau a Chyllid yn


ymrwymo i gefnogi llywodraethu ariannol ar gyfer ceisiadau ymchwil ac incwm; a datblygu modelau i gefnogi capasiti a gallu staff. **Bydd y Tîm Cyfathrebu’n** cydweithio ag arweinwyr rhaglenni i gefnogi datblygu a gweithredu cynlluniau lledaenu effeithiol ar gyfer allbynnau ymchwil a gwerthuso, i gynyddu gweladwyedd a chydweithio â’r Swyddfa YaD i fonitro effaith gyda phartneriaid mewnol ac allanol.

Bydd Adran Ymchwil a Gwerthuso’r Gyfarwyddiaeth Gwybodaeth yn

arwain ar gyflwyno rhaglen ymchwil a gwerthuso ddylanwadol sy’n gweithio ar draws meysydd strategol â blaenoriaeth; ac yn parhau i gefnogi datblygu rhaglenni ymchwil a gwerthuso ar draws y sefydliad trwy’r Swyddfa YaD, a’r timau Gwerthuso ac Effaith.

Dangosir y fframwaith gweithredu a llywodraethu trosgynnol yn Ffigur 4, a darperir braslun o rôl pob grŵp trosodd. Bydd cylch gorchwyl llawn ar gyfer pob un yn cael ei ddatblygu maes o law.

Ffigur 4 Strwythur llywodraethu ac atebolrwydd arfaethedig ar gyfer strategaeth Ymchwil a Gwerthuso Iechyd Cyhoeddus Cymru



Bydd yr Arweinwyr Ymchwil a Gwerthuso Blaenoriaethau Strategol

yn gweithio ar draws agendâu a gyda phartneriaid allanol i gyrru'r agenda ymchwil a gwerthuso sydd wedi'i halinio â'r flaenoriaeth strategol honno ymlaen. Bydd yr arweinwyr yn datblygu cynllun gweithredu i adnabod blaenoriaethau ymchwil a gwerthuso, a gyda chefnogaeth gan yr Adran Ymchwil a Gwerthuso, manteisio ar gyfleoedd i adeiladu rhaglen ymchwil a gwerthuso sydd wedi'i hymwreiddio o fewn y flaenoriaeth strategol. Dros y tymor canolig, bydd yr arweinwyr yn adeiladu Is-dimau Ymchwil a Gwerthuso Blaenoriaethau Strategol amlddisgyblaethol, yn gweithio mewn matrices i gyflwyno ar draws Adrannau a Chyfarwyddiaethau.

Bydd y Grŵp Gweithredu Ymchwil a Gwerthuso'n datblygu ac yn gyrru cynllun gweithredu'r strategaeth ymlaen, gan asesu cynnydd yn erbyn canlyniadau'r strategaeth hon a monitro gweithgareddau ymchwil a gwerthuso ar draws lechyd Cyhoeddus Cymru. Bydd y grŵp hwn wedi'i gadeirio gan y Pennaeth Ymchwil a Datblygu ac yn cynnwys cynrychiolaeth o'r Swyddfa YaD, y Tîm Gwerthuso ac Effaith, Arweinwyr YaG (neu ddirprwyon enwebedig), Arweinwyr Grŵp Ymchwil a Gwerthuso Adrannau/ Cyfarwyddiaethau presennol (neu ddirprwyon enwebedig) ac fel y bo angen, cynrychiolaeth gan y Cyfarwyddiaethau Pobl a Datblygu Sefydliadol a Gweithrediadau a Chyllid.

Bydd Grwpiau Ymchwil a Gwerthuso Cyfarwyddiaethau /Adrannau'n

cefnogi gweithrediad y strategaeth, gyda ffocws penodol ar ddatblygu capasiti a gallu.

Bydd atebolrwydd ac adrodd i Dîm Gweithredol Iechyd Cyhoeddus Cymru, ac i Fwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru trwy Bwyllgor y Bwrdd Dysg, Ymchwil a Gwybodaeth. Mae atebolrwydd i Lywodraeth Cymru trwy Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.

Mae'r strategaeth hon yn cynnig datblygu **Panel Cyfleoedd Ymchwil a Gwerthuso Strategol** allanol i ganolbwyntio ar fwyafu cyfleoedd ymchwil a gwerthuso ar gyfer gweithio ar y cyd gyda phartneriaid allanol, a darparu cyngor i gefnogi datblygu arweinyddiaeth ymchwil o fewn lechyd Cyhoeddus Cymru. Bydd y panel hwn wedi'i gadeirio gan y Pennaeth Ymchwil a Datblygu ac yn cynnwys Arweinwyr YaG ac Aelodau Ymchwil a Gwerthuso Ymgynghorol Academiaidd allanol a benodir, cynrychiolaeth gan sefydliadau gwirfoddol/y trydydd sector, arianwyr ac aelodau'r cyhoedd. Byddai aelodaeth allanol ar sail cyfnod o dair blynedd.

4.1.1 Cynllun gweithredu bras

Mae'r strategaeth hon ar gyfer y cyfnod 2019 i 2025, bydd cynllun gweithredu traws-sefydliadol yn cael ei ddatblygu yn erbyn yr amcanion strategol (Adran 3) a bydd cynnydd yn cael ei adolygu bob blwyddyn. Amlinellir cynllun gweithredu lefel uchel sy'n canolbwyntio ar adeiladu'r isadeiledd (Amcan 3.6) ar gyfer blwyddyn 1 isod.

Blwyddyn 1

- Datblygu Cylch Gorchwyl y Grŵp Gweithredu a'r Panel Cyfleoedd Strategol a sefydlu aelodaeth.
- Datblygu rôl yr Arweinwyr Ymchwil a Gwerthuso, gan ymchwilio i opsiynau ar gyfer buddsoddi a datblygu cynaliadwy, a chan arwain at achos busnes ar gyfer cyfiawnhau adnoddau, os bydd ei angen.
- Gweithredu mabwysiadwyr cynnar Ymchwil Blaenoriaeth Strategol ac Arweinwyr Gwerthuso, pan fo'n bosib
- Sicrhau cysylltiadau o fewn rhaglenni newid sefydliadol eraill, er enghraifft y strategaeth weithlu tymor hir.
- Bydd y Cyfarwyddwr Gwybodaeth newydd yn adolygu'r strategaeth gan gynnwys cynnydd a model gweithredu arfaethedig.

Blwyddyn 2

- Adolygu'r strategaeth fel y bo angen yn sgil adolygu a datblygu cynllun gweithredu ar gyfer 2021-2025.

4.2 Adolygiad llywodraethu a risg ymchwil

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru'n darparu strwythur llywodraethu trwyadl ar gyfer ymchwil i sicrhau ansawdd, cyfanrwydd moesegol ac effeithlonrwydd ei gyflwyniad.

Mae Swyddfa YaD Iechyd Cyhoeddus Cymru'n derbyn cyllid craidd gan Lywodraeth Cymru i gefnogi datblygu a chyflwyno gweithgareddau ymchwil o safon, ac yn gweithio gydag Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru i ddarparu ystod o wasanaethau i helpu ymchwilwyr Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Mae Swyddfa YaD Iechyd Cyhoeddus Cymru'n cefnogi Prif Ymchwilwyr a Noddwyr i sicrhau bod cymeradwyaethau GIG perthnasol (gan gynnwys Moeseg Ymchwil y GIG) yn eu lle ar gyfer ymchwil y GIG a Gofal Iechyd, fel a ddiffinnir yn Fframwaith Polisi'r Deyrnas Unedig ar gyfer Ymchwil Iechyd a Gofal Cymdeithasol⁹. Mae hyn yn cynnwys rhoi cyngor ar baratoi ceisiadau i'w hadolygu gan yr Awdurdod Ymchwil Iechyd ac Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yng Nghymru, a chan Bwyllgor Moeseg Ymchwil y GIG pan fo'n berthnasol ynghyd â chyrff adolygu perthnasol eraill.

4.2.1 Egwyddorion ymchwil a gwerthuso

Bydd gweithrediad y strategaeth hon yn cael ei gyfeirio gan ein hegwyddorion ar gyfer ymchwil a gwerthuso, sydd wedi'u halinio'n gryf â'r pum dull gweithio, fel a ddiffinnir o fewn yr egwyddor datblygu cynaliadwy yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015¹⁰:

Pump dull gweithio/ Egwyddor Datblygu Cynaliadwy	Egwyddorion cyfeirio ymchwil a gwerthuso o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru
Tymor hir: Pwysigrwydd cydbwysu anghenion tymor byr â'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd.	Byddwn yn datblygu ac yn ymwneud ag ymchwil a gwerthuso a fydd yn gwneud gwahaniaeth i iechyd y boblogaeth ac alinio â'r blaenoriaethau strategol tymor hir ar gyfer iechyd y boblogaeth yng Nghymru.
Atal: Sut gall cymryd camau i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.	Byddwn yn datblygu ac yn ymwneud ag ymchwil a gwerthuso i atal neu liniaru iechyd a llesiant gwael yn y boblogaeth a lleihau anghydraddoldeb.
Integreiddio: Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar eu hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.	Byddwn yn datblygu ac yn ymwneud ag ymchwil a gwerthuso a fydd yn gwneud gwahaniaeth i iechyd y boblogaeth wedi'i integreiddio ar draws y blaenoriaethau strategol o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru ac yn ymestyn ar draws nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
Gweithio ar y cyd: Gweithio ar y cyd ag unrhyw unigolyn arall (neu rannau eraill o'r corff ei hun) a allai helpu'r corff i gyflawni ei amcanion llesiant.	Byddwn yn meithrin gweithio ar y cyd yn fewnol ac yn allanol ar draws sefydliadau, disgyblaethau a phartneriaethau gan weithio gyda'r rhai sy'n llunio polisi ac ymarferwyr.
Cyfranogiad: Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae'r corff yn ei gwasanaethu.	Byddwn yn cynnal ein hymchwil a gwerthuso ar y cyd gyda'r rhai sy'n debygol o gael eu heffeithio gan yr ymchwil, gan gynnwys y cyhoedd.

5 Llwyddiant

Nod trosgynnol y strategaeth hon yw cael effaith amlwg a buddiol ar iechyd y boblogaeth yng Nghymru sy'n weladwy ar lefel genedlaethol a rhyngwladol, trwy arwain a hwyluso ymchwil a gwerthuso iechyd y boblogaeth.

Caiff gweithrediad llwyddiannus y strategaeth hon ei fesur trwy'r mesurau canlyniadol a ddisgrifir yn Adran 5.1.

Trwy berchnogaeth ar y cyd ar y strategaeth hon a buddsoddi yn ein staff, byddwn yn datblygu fel arweinydd system ar gyfer ymchwil iechyd y boblogaeth, gan adnabod y blaenoriaethau ar gyfer iechyd y boblogaeth, dylanwadu ar agenda ymchwil iechyd y boblogaeth, arwain portffolio ymchwil a gwerthuso credadwy, er mwyn cynhyrchu a defnyddio tystiolaeth i wella iechyd y boblogaeth, a lleihau anghydraddoldebau yng Nghymru.

Mae adeiladu a chryfhau ymchwil a gwerthuso ar draws y sefydliad yn hanfodol er mwyn i ni gwrdd â'r heriau cymhleth a mwyafu cyfleoedd ar gyfer iechyd y boblogaeth dros y deng mlynedd nesaf.



5.1 Mesur llwyddiant trosgynnol

Caiff gweithrediad llwyddiannus y strategaeth hon rhwng 2019 a 2025 ei fesur yn erbyn y dangosyddion canlyniad craidd a ganlyn sy'n adlewyrchu'r nod trosgynnol a amlinellwyd yn Adran 2.2;

Llwyddiant wrth arwain a hwyluso ymchwil a gwerthuso iechyd y boblogaeth.

- Cynnydd blynyddol cyfartalog yn ansawdd (yn seiliedig ar ffactor effaith siwrnalau a metrigau lledaenu ehangach) a maint y cyhoeddiadau ymchwil.
- Nifer y staff sy'n cyhoeddi eu papur academiaidd cyntaf bob blwyddyn (cyd-awdur ac awdur arweiniol, gan adlewyrchu capasiti ymchwil).
- Cynnydd cyfartalog blynyddol yn nifer y rhaglenni gwerthuso a cheisiadau am grantiau ymchwil wedi'u harwain gan lechyd Cyhoeddus Cymru a gyflwynir am gyllid allanol (gan gynnwys y rhai ar draws partneriaid academiaidd, iechyd a'r rhai nad ydynt yn ymwneud ag iechyd a diwydiant).
- Cynnydd cyfartalog blynyddol yn nifer y rhaglenni gwerthuso a cheisiadau am grantiau ymchwil gydag lechyd Cyhoeddus Cymru fel *cydweithiwr* a gyflwynir am gyllid allanol (gan gynnwys y rhai ar draws partneriaid academiaidd, iechyd a'r rhai nad ydynt yn ymwneud ag iechyd a diwydiant).
- Cwrdd â thargedau fel a ddiffinnir yn fframwaith perfformiad Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ar gyfer Ymddiriedolaethau GIG¹¹.

Cael effaith amlwg ar iechyd y boblogaeth yng Nghymru, sy'n weladwy ar lefel genedlaethol a rhyngwladol.

- Arolwg o fudd-ddeiliaid cenedlaethol a rhyngwladol bob dwy flynedd i bennu:
 - ymwybyddiaeth o allbynnau ymchwil a gwerthuso.
 - canfyddiadau am werth (gan ystyried, er enghraifft, a gymerwyd camau yn sgil y dystiolaeth, a gafwyd newid mewn gweithredu neu benderfyniadau o ganlyniad i hyn?).
- Astudiaethau achos blynyddol o effaith rhaglenni ymchwil a gwerthuso sy'n creu buddion ar gyfer yr economi, cymdeithas, diwylliant, polisi neu wasanaethau cyhoeddus, iechyd, yr amgylchedd neu ansawdd bywyd^{vi}.

Byddwn yn monitro'r newid blynyddol cyfartalog mewn incwm allanol sy'n cefnogi gweithgareddau ymchwil a gwerthuso hefyd, ond o ystyried y gall amrywiadau blynyddol bychain mewn incwm grant effeithio'n sylweddol ar dueddiadau dros amser ni fydd hyn yn *ddangosydd llwyddiant dibynadwy*.

Bydd y dangosyddion trosgynnol hyn yn cyfrannu at Fframwaith Ansawdd ac Effaith Iechyd Cyhoeddus Cymru¹².

^{vi} Gan alw ar y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF)

<https://www.ref.ac.uk/media/1018/guidance-for-standardising-quantitative-indicators-of-impact.pdf>

6 Cydnabyddiaeth

Mae'r strategaeth wedi ei datblygu gan yr Adran Ymchwil a Gwerthuso, a arweinir gan y Dr Alisha Davies, y Dr Mark Griffiths a Claudine Anderson.

Hoffai Iechyd Cyhoeddus Cymru ddiolch i bawb o'r sefydliadau a ganlyn a ddarparodd sylwadau wrth ddatblygu'r strategaeth:

- Prifysgol Aberystwyth
- APM Research & Involvement
- Prifysgol Bangor
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Sefydliad Bevan
- Grŵp Tai Cadarn
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- Prifysgol Fetropolitan Caerdydd
- Prifysgol Caerdydd
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
- Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
- Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- Canolfan Iechyd a Llesiant y Boblogaeth Genedlaethol
- NHS Health Scotland
- NWOORTH Clinical Trials Unit
- Prifysgol Bangor
- Public Health Agency (Northern Ireland)
- Public Health England
- Prifysgol Abertawe
- Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
- Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru
- Llywodraeth Cymru
- Cydweithfa Iechyd Academaidd Gorllewin Cymru

Hoffem ddiolch hefyd i'r holl staff yn Iechyd Cyhoeddus Cymru sydd wedi cyfrannu at y ddogfen hon. Rydym yn ddiolchgar am eu mewnbwn ac adborth gwerthfawr.

7 Cyfeiriadau

1. Iechyd Cyhoeddus Cymru (2018) Strategaeth Tymor Hir 2018-30: Gweithio i wireddu dyfodol iachach i Gymru. Ar gael yn: http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/888/Long%20Term%20Strategy_Welsh_single%20pages%20%28print%20version%20191118%29.pdf
2. Llywodraeth Cymru (2018) Cymru Iachach: ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Ar gael yn: <https://gov.wales/docs/dhss/publications/180608healthier-wales-maincy.pdf>
3. Iechyd Cyhoeddus Cymru (2015). Strategaeth Ymchwil 2015-18. Ar gael yn: [http://www2.nphs.wales.nhs.uk:8080/PHWRandDDocs.nsf/\(\\$All\)/EF57488CEF6E186480257EFC0036FAD1/\\$File/PHW%20Research%20Strategy%20report%20\(W\).pdf?OpenElement](http://www2.nphs.wales.nhs.uk:8080/PHWRandDDocs.nsf/($All)/EF57488CEF6E186480257EFC0036FAD1/$File/PHW%20Research%20Strategy%20report%20(W).pdf?OpenElement)
4. Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Dyfarniad Amser Ymchwil Glinigol <https://www.ymchwiliachydgofal.llyw.cymru/newyddion/dyfarniad-amser-ymchwil-glinigol-2018/>
5. Rhwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru. Ymchwil a Datblygu <https://research.publichealthnetwork.cymru/cy/>
6. Iechyd Cyhoeddus Cymru (2018). Adroddiad yn tynnu sylw at gyflawniadau ymchwil Iechyd Cyhoeddus Cymru <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/newyddion/50014>
7. Y Gymdeithas Sefydliadau Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Rhyngwladol. <http://www.ianphi.org/>
8. Iechyd Cyhoeddus Cymru (2017). Iechyd Cyhoeddus Cymru: Ffocws Cenedlaethol, Yn Gyfrifol yn Fyd-eang Ein Strategaeth Iechyd Rhyngwladol 2017-2027. Ar gael yn: https://ihcc.publichealthnetwork.cymru/files/6714/9675/5783/PHW_International_Strategy_Cym_web_SM.pdf
9. Fframwaith Polisi'r Deyrnas Unedig ar gyfer Ymchwil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (2017) <https://www.hra.nhs.uk/documents/1068/uk-policy-framework-health-social-care-research.pdf>
10. Llywodraeth Cymru (2015). Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. <https://gweddi.gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/?lang=cy>
11. Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru (2019) Fframwaith Cyflwyno ar gyfer rheoli perfformiad YaD y GIG 2019/20. Ar gael yn: https://www.healthandcareresearch.gov.wales/uploads/About/Delivery_Framework-2019-20.pdf
12. Iechyd Cyhoeddus Cymru (2017) Fframwaith Ansawdd ac Effaith. Ar gael yn: <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/888/FINAL%20PHW%20Quality%20and%20Impact%20Framework%20E%284%29.pdf>

